#einffermydd
#ourfarms

YN FYW O'R FFERM

DEMO FARM LIVE

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

# MOUNTJOY

Sector Allweddol: Llaeth

Croesawu technoleg genomeg i fridio buchod cyfnewid a lleihau mewnbynnau nitrogen trwy ddefnyddio meillion.

## FFEITHIAU'R FFERM:

- Mae Mountjoy yn fferm tir glas 186-hectar (ha) sydd â buches o 360 o wartheg godro Friesian Seland Newydd a 200 o loeau.
- Mae'r daliad yn cael ei ffermio gan ffermwr ail genhedlaeth, William Hannah, ei wraig, Heather, a'i rieni, Tom a Mary. Mae brawd Heather, Mike Stott, yn gweithio yn y busnes mewn swydd amser llawn ac mae godrowyr achlysurol yn cael eu cyflogi hefyd.
- Mae'r fuches yn cael ei chadw dan do am 8-10 wythnos ac mae'n lloia mewn bloc 12 wythnos o 20 Mawrth ymlaen. Yn 2019 llwyddodd 80% i fwrw llo yn ystod y pum wythnos gyntaf.
- Mae'r buchod i gyd yn lloia ar laswellt ar seibiau pori 24 awr.
- Y cynnyrch llaeth blynyddol ar gyfartaledd yw 6,000 litr y fuwch gyda 4.4% o fraster menyn a 3.7% o brotein, ac mae 3,700 litr yn cael ei gynhyrchu o borthiant.

| Cefnogaeth bellach gan Cyswllt Ffermio | Manylion |
|---|---|
| **E-ddysgu** - Cyrsiau dysgu rhyngweithiol byr y gallwch eu cwblhau o'ch cartref ar amser cyfleus | **Mae'r cyrsiau sydd ar gael yn cynnwys:**<br>• Gwella Da Byw Gan Ddefnyddio Geneteg<br>• Gwerthoedd Bridio Tybiedig<br>• Sgôr Cyflwr Corff (BCS)<br>• Genomeg<br>• Rheoli Pori<br>• Rheolaeth Maetholion Fferm<br>• Lleihau Llygredd Amaethyddol |
| **Hyfforddiant wyneb i wyneb** - Cefnogaeth ariannol o hyd at 80% ar gael tuag at gyrsiau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid | **Mae'r cyrsiau sydd ar gael yn cynnwys:**<br>• Lleihau Nwyon Tŷ Gwydr mewn System Da Byw<br>• Iechyd, Lloches a Rheoli Lloi<br>• Sgorio Symudedd Gwartheg<br>• Defnyddio a Gwasgaru Slyri'n Ddiogel<br>• DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI)<br>• Trimio Traed Gwartheg |
| **Cymorthfeydd** - Cymorthfeydd digidol un i un wedi'u hariannu'n llawn | **Mae'r pynciau'n cynnwys:**<br>• Maeth<br>• Rheoli pridd a glaswelltir<br>• Materion iechyd anifeiliaid |
| **Rhaglen TGCh** | • Fideo o weminar gan Moocall ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio<br>• Sesiynau hyfforddi un i un dros y ffôn neu ar-lein i'r rhai sydd â sgiliau TGCh sylfaenol<br>• Cwrs hyfforddiant o'r cartref i ddysgu sgiliau TGCh sylfaenol ar gael drwy'r haf gyda chymorth gan golegau diwydiannau'r tir. |
| **Gwasanaeth Cynghori** | • Cynllunio busnes<br>• Ffrwythlondeb<br>• Rheoli glaswelltir<br>• Cynllunio rheoli maetholion<br>• Llunio dognau bwydo |
| **Rhagori ar Bori** | Cymryd rhan yn y rhaglen er mwyn gweithredu arferion gwell o ran rheoli'r borfa ac adolygu effeithlonrwydd y defnydd a wneir o'r borfa. |
| **Clinigiau Iechyd Anifeiliaid** - un clinig i bob busnes fydd yn darparu hyd at £250 i ymgymryd â samplu, profi a chyngor gan filfeddyg lleol | **Gall clinigiau ymdrin â ystod o faterion iechyd anifeiliaid fel:**<br>• FEC (Cyfrif wyau ysgarthol)<br>• Ffrwythlondeb<br>• IBR<br>• Symudedd<br>• Profi Parlwr<br>• Ectoparasitiaid (Clafr, Trogod ayb.) |

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
RHWYDWAITH ARDDANGOS DEMONSTRATION NETWORK